# Diffiniadau o raglenni rhanbarthol a chynyrchiadau rhanbarthol

## Canllawiau Drafft i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus

Mae ein newidiadau mewn Glas (testun newydd) a llinell drwodd (testun wedi'i ddileu).

**Canllawiau Drafft**

Cyhoeddwyd 15 Mai 2025
Dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion: 10 Gorffennaf 2025

# Cynnwys

## Adran


1. Trosolwg ....... 3
2. Canllawiau ....... 5
3. Cynyrchiadau rhyngwladol ....... 15

# 1. Trosolwg

~~Diweddarwyd y Canllawiau hyn ym mis Mehefin 2019. Maen nhw'n dod i rym mewn perthynas â theitlau a ddarlledwyd o 1 Ionawr 2021 ymlaen.[1] Mae Ofcom yn disgwyl i ddarlledwyr weithio yn unol â'r Canllawiau sydd wedi'u diweddaru bob amser, gan gynnwys wrth gomisiynu rhaglenni newydd yn ystod y cyfnod pontio. Pan fydd rhaglenni'n cael eu hail-gomisiynu yn ystod y cyfnod pontio, mae Ofcom yn disgwyl i'r rhain gael eu gwneud yn unol â'r Canllawiau sydd wedi'u diweddaru.~~

1.1 Mae Siarter Frenhinol a Chytundeb Fframwaith y BBC ac adran 263 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ('y Ddeddf') yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom gynnwys amodau yn nhrwyddedau'r BBC a'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol (gwasanaethau Sianel 3, Channel 4 a Sianel 5) yn y drefn honno, i gydymffurfio â rhwymedigaethau ynghylch cynyrchiadau annibynnol, cynyrchiadau rhanbarthol, cynyrchiadau gwreiddiol, ac mewn rhai achosion ynghylch rhaglenni rhanbarthol. Yn y canllawiau sy'n dilyn, mae 'darlledwyr' yn golygu'r BBC, gwasanaethau Sianel 3, Channel 4 a Sianel 5.

1.2 Roedd Deddf y Cyfryngau 2024 wedi diweddaru'r fframwaith rheoleiddio i roi mwy o hyblygrwydd i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol o ran cyflawni eu rhwymedigaethau. Roedd yn ehangu'r ffordd y gall y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol gyflawni eu cwotâu ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol drwy ganiatáu i raglenni sydd ar gael ar wasanaeth rhaglenni ar-alw, sef gwasanaeth rhaglenni rhyngrwyd dynodedig ('IPS'), neu sy'n rhan o hynny, gyfrif tuag at y cwota.[1]

1.3 Mae'r ~~nodyn hwn~~ Canllawiau hyn yn ategu'r darpariaethau statudol ac amodau'r drwydded ar gynyrchiadau a rhaglenni rhanbarthol ~~drwy nodi~~. Maen nhw'n nodi'r prif ddiffiniadau y mae Ofcom wedi'u defnyddio ac yn egluro'r dull y mae Ofcom wedi'i ddilyn i ddehongli'r dyletswyddau statudol ac i fonitro cydymffurfiad â nhw.

1.4 ~~Nod y~~ Mae'r rhwymedigaethau ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol ~~yw cefnogi~~ yn helpu i sicrhau bod cynnwys sy'n cynrychioli a ~~chryfhau'r~~ phortreadu cynulleidfaoedd ar draws y ~~sector cynhyrchu teledu a'r~~ DU yn cael ei gomisiynu, gan gefnogi'r economi ~~economïau creadigol~~ greadigol ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU. Mae'r rhwymedigaethau rhaglenni rhanbarthol hefyd yn ceisio helpu i gryfhau'r sector cynhyrchu teledu yn y gwledydd a'r rhanbarthau, gan sicrhau hefyd bod cynulleidfaoedd yn cael mynediad at raglenni sy'n berthnasol iddyn nhw ac i'r ardaloedd lle maen nhw'n byw. Dylai'r darlledwyr gadw hyn mewn cof wrth ystyried y Canllawiau.

1.5 Mae'r darlledwr yn gyfrifol am gydymffurfio â rhwymedigaethau ei drwydded, ac am ddarparu data i ddangos y cydymffurfiad hwn os oes angen. Disgwylir i ddarlledwyr ddarparu ffurflenni blynyddol ar ffurf y mae Ofcom wedi cytuno arni.

---

~~[1] Pan gafodd teitlau a ddarlledwyd o 1 Ionawr 2021 eu comisiynu cyn 1 Gorffennaf 2019, mae'r Canllawiau blaenorol "Diffiniadau o raglenni rhanbarthol a chynyrchiadau rhanbarthol: Canllawiau ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus" dyddiedig 6 Ionawr 2010 yn berthnasol.~~

Gwasanaeth y mae modd cael gafael arno dros y rhyngrwyd yw "gwasanaeth rhaglenni rhyngrwyd (IPS) dynodedig"; ei "brif ddiben" yw darparu rhaglenni i ddefnyddwyr, ac mae wedi cael ei "ddynodi" gan Ofcom at ddibenion y Ddeddf, gweler adran 362AA.

1.6 Cafodd y Canllawiau hyn eu diweddaru yn dilyn newidiadau a wnaed i’r Ddeddf gan Ddeddf y Cyfryngau 2024. Maen nhw’n dod i rym mewn perthynas â theitlau a ddarlledir o 1 Ionawr 2026 ymlaen.

# 2. Canllawiau

2.1 Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau ar ba raglenni sy'n gymwys i gyfrif tuag at gwota cynyrchiadau rhanbarthol darlledwr, yn ogystal ag enghreifftiau o sut gall rhaglenni gyfrif tuag at y cwota cynyrchiadau rhanbarthol.

## Cynyrchiadau Rhanbarthol

2.2 Isod, rydym ni'n nodi ar gyfer (a) y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol a (b) y BBC, y sail ar gyfer eu rhwymedigaethau mewn perthynas â chynyrchiadau rhanbarthol, ac yn egluro ar ba wasanaethau y dylai rhaglenni cynyrchiadau rhanbarthol gael eu darlledu, neu y dylen nhw fod ar gael, er mwyn iddyn nhw gyfrif tuag at gyflawni'r cwota.

### (a) Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus Masnachol

2.3 Mae'r Ddeddf Cyfathrebiadau (adrannau 286 a 288) ~~a Chytundeb Fframwaith y BBC yn mynnu bod cyfran addas o raglenni'n cael eu gwneud y tu allan i'r M25~~ yn mynnu bod nifer sylfaenol o oriau o raglenni'n cael eu gwneud y tu allan i'r M25 bob blwyddyn, bod y rhain yn cynrychioli ystod addas o raglenni, a bod ~~cyfran~~ swm addas o wariant yn cael ei wario ar gynhyrchu'r rhaglenni hyn mewn amrywiaeth addas o ganolfannau cynhyrchu.

2.4 Mae Ofcom wedi penderfynu mai'r ffordd briodol o sicrhau'r amcan hwn yw y dylai fod yn ofynnol i'r darlledwyr (a) cynhyrchu nifer sylfaenol o oriau o raglenni, a (b) gwario isafswm (a nodir yn y trwyddedau) sy'n cynnwys rhaglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ac sy'n bodloni'r diffiniad o gynyrchiadau rhanbarthol isod.

2.5 Mae'r Ddeddf yn darparu bod rhaglenni sy'n cael eu cynnwys ar brif sianel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig (h.y. gwasanaeth Sianel 3, 4 neu 5) neu wasanaeth rhaglenni ar-alw ('ODPS') sy'n wasanaeth rhaglenni rhyngrwyd dynodedig, neu sy'n rhan o wasanaeth o'r fath, sy'n cael ei ddarparu gan ddeiliad y drwydded, yn gallu cyfrif tuag at gyflawni'r cwotâu.[2] Dim ond un darllediad llinol neu gynhwysiad 30 diwrnod ar wasanaeth rhaglenni ar-alw sy'n IPS dynodedig, neu'n rhan o hynny, sy'n gallu cyfrif tuag at gyflawni'r cwota. Ni all rhaglenni sy'n cael eu dangos ar sianeli portffolio yn gyntaf gyfrif tuag at gyflawni'r cwota, ac ni all rhaglenni sydd ar gael ar IPS dynodedig ac yna sy'n cael eu darlledu ar sianel bortffolio o fewn 30 diwrnod gyfrif.

2.6 Nid yw rhaglenni sydd ar gael ar-lein sydd wedi bod ar gael ar sianel linol yn y gorffennol, fel rhaglenni dal i fyny, neu setiau bocs o raglenni sy'n cael eu hychwanegu at gatalogau rhaglenni ar-alw darlledwyr, yn gallu cyfrif tuag at gyflawni cwotâu cynyrchiadau rhanbarthol darlledwr.

2.7 Drwy roi'r dull uchod ar waith, dim ond swm a gwariant darllediad cyntaf rhaglen fydd yn cyfrannu at gyflawni cwotâu cynyrchiadau rhanbarthol. Mae'r tabl canlynol yn enghraifft o sut mae hyn yn gweithio:

[2] I gyfrif tuag at y cwota, pan fydd cynnwys yn cael ei gynnwys ar wasanaeth rhaglenni ar-alw, rhaid ei fod wedi bod ar gael am ddim, a rhaid iddo fod ar gael ar y gwasanaeth hwnnw am o leiaf 30 diwrnod (ac eithrio yn achos digwyddiadau chwaraeon).

**Ffigur 1: Dull enghreifftiol ar gyfer cyfrif rhaglenni ar gyfer cwotâu cynyrchiadau rhanbarthol**

| Trefn rhyddhau rhaglen | Swm | Gwerth | Dull gweithredu cwota |
|---|---|---|---|
| Rhyddhau ar-lein yn gyntaf | 1 awr | £100,000 | Dim ond unwaith mae'n cyfrif yn erbyn y cwota |
| Darllediad llinol cyntaf ar wasanaeth darlledwr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig | 1 awr | £100,000 | |
| Ailddarllediad llinol | Ni all gyfrif yn erbyn cwotâu cynyrchiadau rhanbarthol | | |
| **1 awr i gyfrif yn erbyn cwota oriau**<br>**£100,000 i gyfrif yn erbyn y cwota gwariant** | | | |

Sylwch: Mae ffigurau gwariant yn gwbl ddangosol ac nid ydynt yn adlewyrchu tueddiadau'r farchnad.

2.8 Mewn achosion lle mae'r cyfnod rhyddhau ar gyfer cynnwys cymwys yn pontio blynyddoedd calendr, ystyrir bod y cynnwys ar gael yn y flwyddyn rhyddhau gyntaf.[3] Pan fydd cyfres o raglenni wedi'u hamserlennu i gael eu darlledu ar wasanaeth llinol ar draws dwy flynedd galendr (neu fwy), dylid dyrannu pob rhaglen i'r flwyddyn y cafodd ei darlledu gyntaf.

## (b) BBC

2.9 Mae Cytundeb Fframwaith y BBC yn mynnu bod Ofcom yn gorfodi gofynion ar y BBC i sicrhau bod cyfran addas o'r holl raglenni rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y DU yn cael eu gwneud y tu allan i'r M25 (a bod cyfran addas o'r rhain yn cael eu gwneud yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon), bod y rhain yn cynrychioli ystod addas o raglenni, a bod cyfran addas o wariant yn cael ei wario ar gynhyrchu'r rhaglenni hyn mewn amrywiaeth addas o ganolfannau cynhyrchu.

2.10 Mae Ofcom wedi penderfynu mai'r ffordd briodol o sicrhau'r amcan hwn yw y dylai fod yn ofynnol i'r BBC sicrhau bod cyfran benodol o'r oriau o raglenni y mae'n eu darlledu yn cynnwys rhaglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ac sy'n bodloni'r diffiniad o gynyrchiadau rhanbarthol isod. Dim ond rhaglenni sy'n cael eu dangos ar Wasanaethau Teledu Cyhoeddus y BBC yn y DU sy'n gallu cyfrif tuag at gyflawni'r cwota hwn.[4]

[3] Adran 278B(3) o'r Ddeddf (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Cyfryngau).
[4] Mae swyddogaethau Ofcom mewn perthynas â'r BBC ar gael yn Adran 198 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

## Meini prawf cynyrchiadau rhanbarthol

2.11 Mae’r ~~cwotâu cynyrchiadau rhanbarthol~~ meini prawf cynyrchiadau rhanbarthol a nodir yn yr adran hon yn berthnasol i raglenni sy’n cael eu dangos am y tro cyntaf sydd wedi’u gwneud ~~yn y DU~~ gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol a’r BBC. [5] Mae Ofcom yn derbyn na fyddai’n ymarferol disgwyl i weithrediadau newyddion rhwydwaith fod wedi’u lleoli y tu allan i Lundain. Felly nid yw’r cwotâu yn berthnasol i raglenni newyddion a dylid eithrio’r rhain o’r cyfrifiadau cwota.

2.12 ~~Hefyd, nid yw’r cwotâu yn berthnasol i~~ Ni all ailddarllediadau, rhaglenni sy’n cael eu prynu, rhaglenni newyddion, rhaglenni siopa gartref, amser cau, munudau hysbysebu, deunydd hunanhyrwyddo ~~gynnwys na rhaglenni sy’n cael eu prynu,~~ a ~~dylai’r rhain hefyd gael eu heithrio o gyfrifiadau cwota~~ rhagflasau gyfrif tuag at gyflawni cwota cynyrchiadau rhanbarthol darlledwr.

2.13 Er mwyn cyfrannu at y cwota cynyrchiadau rhanbarthol fesul awr, rhaid i gynyrchiadau perthnasol fodloni dau o’r tri maen prawf canlynol:

**<u>Maen prawf a): Canolfan sylweddol</u>**

Mae’n rhaid i’r cwmni cynhyrchu gael canolfan gynhyrchu a busnes sylweddol yn y DU y tu allan i’r M25. Rhaid i’r cynhyrchiad dan sylw gael ei reoli o’r ganolfan sylweddol honno. Bydd y ganolfan yn cael ei hystyried yn un sylweddol os mai dyma yw man gwaith arferol:

i) swyddogion gweithredol sy’n rheoli’r busnes rhanbarthol; a

ii) uwch staff personél sy'n ymwneud â'r cynhyrchiad dan sylw; a

iii) uwch staff personél sy’n ymwneud â chwilio am raglenni i'w comisiynu.

*<u>Nod:</u> Amcan y maen prawf hwn yw gwneud cynyrchiadau teledu yn rhan greiddiol yn y gwledydd a'r rhanbarthau i sicrhau rhyw elfen barhaus sy'n gallu ysgogi a datblygu ecolegau cynhyrchu hyfyw y tu allan i'r M25. Er mwyn bodloni'r maen prawf hwn, rydym yn credu y bydd gan y cwmni sy’n gwneud y teitl bresenoldeb dilys yn y wlad neu is-ranbarth lle mae ganddo swyddfa ac y bydd yn cyfrannu drwy'r amser at economi greadigol yr ardal leol honno.*

*<u>Nodiadau:</u>*

- *Bydd y ganolfan sylweddol yn endid cyfreithiol ei hun fel arfer, ond nid oes raid iddi fod.*
- *Nid oes isafswm o unigolion y mae angen iddyn nhw gael eu cyflogi yn y ganolfan sylweddol; bydd y nifer yn dibynnu ar yr hyn sy’n cyfri fel swyddfa cynhyrchu weithredol go iawn yn yr ardal leol lle mae wedi'i lleoli. Er enghraifft, mewn cwmni sy’n cychwyn o'r newydd, gan gynnwys swyddfa ranbarthol sydd newydd ei hagor gan gwmni cynhyrchu sydd â phencadlys yn Llundain, efallai mai un person fydd yn gyfrifol ar y dechrau am yr holl swyddogaethau a nodir uchod, ac felly'n bodloni holl elfennau'r maen prawf. Ond, i gwmnïau mwy, e.e. swyddfa ranbarthol fwy sydd wedi ennill ei phlwyf gan gwmni cynhyrchu sydd â phencadlys yn Llundain, mae'n fwy tebygol y byddem ni’n disgwyl gweld sawl unigolyn yn gyfrifol am elfennau gwahanol o'r maen prawf. Pan fydd staff personél a rolau’n newid dros amser, byddem ni’n disgwyl i ddarlledwyr asesu a yw'r ganolfan yn dal yn sylweddol, yn unol â’r maen prawf hwn.*

[5] Mae rhaglen sy’n cael ei gwneud y tu allan i’r DU wedi’i heithrio o’r cwotâu ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol: gweler Adran 3 y Canllawiau hyn.

- *Mae'r termau cyffredinol 'swyddogion gweithredol' ac 'uwch staff personél' yn cydnabod bod teitlau swyddi'n amrywio rhwng cyflogwyr, yn ôl genre a thros amser. Rydym ni'n diffinio 'swyddogion gweithredol' fel yr unigolion hynny sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau gweithredol annibynnol a/neu â rôl arwain bwysig mewn perthynas â rheoli'r busnes rhanbarthol. Rydym ni'n diffinio 'uwch staff personél' fel yr unigolion hynny sydd â rôl arwain bwysig a/neu sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau gweithredol, annibynnol mewn perthynas â'r cynhyrchiad dan sylw, neu mewn perthynas â chwilio am raglenni i'w comisiynu (fel sy'n berthnasol).*
- *Man gwaith arferol rhywun yw lle mae'r unigolyn yn treulio'r rhan fwyaf o'i amser gweithio.*
- *Yr hyn sy'n allweddol gyda chynhyrchiad sydd wedi'i wneud o SPV yw gweld a yw'r SPV*[6] *yn bodloni holl elfennau'r maen prawf ar gyfer canolfan sylweddol. Os yw'r SPV yn un dros dro, rydym ni'n dueddol o feddwl y bydd hi'n llai tebygol o allu bodloni holl elfennau'r maen prawf, yn enwedig y gofyniad bod y ganolfan sylweddol yn 'fan gwaith arferol ar gyfer uwch staff personél sy'n ymwneud â chwilio am raglenni i'w comisiynu'.*

**<u>Maen prawf b): Gwariant cynhyrchiad</u>**

Dylai o leiaf 70% o wariant y cynhyrchiad gael ei wario yn y DU y tu allan i'r M25. At ddibenion cyfrifo hyn, dylid seilio gwariant y cynhyrchiad ar wariant cyfan y cynhyrchiad, gan gynnwys unrhyw gyllid gan drydydd partïon a gwariant y tu allan i'r DU, ond dylid eithrio costau talentau ar y sgrin, deunydd o'r archif, hawliau chwaraeon, arian a roddir fel gwobrau mewn cystadlaethau, costau hawlfraint ac unrhyw ffi cynhyrchu.

*<u>Nod:</u> Amcan y maen prawf hwn yw sicrhau buddsoddiad gwirioneddol ym maes cynhyrchu ar gyfer y teledu y tu allan i'r M25. Rydym ni o'r farn, er mwyn bodloni'r maen prawf hwn, y dylai cynhyrchiad wneud cyfraniad ariannol arwyddocaol i'r economi leol yng ngwledydd a rhanbarthau'r DU – er enghraifft, drwy ddefnyddio cyfleusterau lleol neu ranbarthol sy'n ymwneud â chynhyrchu.*

*<u>Nodiadau:</u>*

- *Dylai costau gorbenion gael eu dosrannu'n rhesymol i'r lleoliad(au) y mae pob un o'r gorbenion yn berthnasol (a allai fod yn ganolfan sylweddol a/neu un neu fwy o ganolfannau cynhyrchu). Byddai'n briodol categoreiddio'r costau cynnal sy'n gysylltiedig â chadw canolfan yn weithredol yn y gwledydd a'r rhanbarthau fel gwariant rhanbarthol. Os oes gan gwmni cynhyrchu amryw o swyddfeydd ar draws y DU, a bod costau o'r fath yn cael eu rhannu rhwng y swyddfeydd hyn (gan gynnwys yn Llundain), byddem yn disgwyl i'r cwmni fynd ati'n rhesymol i ddyrannu'r costau hyn. Ni ddylai costau sy'n gysylltiedig â gweithredu a chynnal a chadw adeiladau yn Llundain gael eu hystyried yn wariant rhanbarthol.*
- *Wrth neilltuo costau teithio, dylid ystyried bwriad y polisi. Er enghraifft, ni fyddai'n briodol categoreiddio costau rhanbarthol yn gostau sy'n cael eu gwario ar gludo talentau/offer o Lundain/gwledydd y tu allan i'r DU i'r gwledydd a'r rhanbarthau. Ond, mae gwariant ar*

[6] Cwmni wedi'i sefydlu ar gyfer prosiect penodol yw SPV, e.e. i gynhyrchu ffilm/rhaglen. Mae SPV yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cynyrchiadau mawr fel arfer, a dramâu yn arbennig. Mae'r 'cyfrwng' yn cadw'r gwaith cynhyrchu ar wahân i weithgareddau eraill y cwmni cynhyrchu.

*deithio'n gallu cael ei neilltuo fel gwariant rhanbarthol os yw'r man cychwyn yn y gwledydd a'r rhanbarthau.*

- *Ni ddylai'r ffi cynhyrchu gael ei chynnwys yng ngwariant y cynhyrchiad. Ond, mewn achosion lle defnyddir rhywfaint o'r ffi cynhyrchu i ariannu costau'r cynhyrchiad (er enghraifft, pan fydd cynhyrchiad wedi defnyddio mwy na'i gyllideb), yna mae modd cynnwys y swm hwnnw yng ngwariant y cynhyrchiad.*
- *Dylai gwariant y tu allan i'r DU gael ei gynnwys fel rhan o wariant y cynhyrchiad ond nid ei gynnwys fel gwariant rhanbarthol (h.y. nid yw'n cyfrannu tuag at y trothwy 70%). Fodd bynnag, byddai'n briodol, er enghraifft, i gynnwys costau sy'n gysylltiedig â thalu talentau'r DU sydd wedi'u lleoli yn y rhanbarthau wrth weithio dramor ar y cynhyrchiad dan sylw, fel gwariant rhanbarthol.*

**Maen prawf c): Talent oddi ar y sgrin**

Mae'n rhaid mai yn y DU, y tu allan i'r M25, y mae man gwaith arferol o leiaf 50% o'r talentau cynhyrchu (h.y. nid talentau ar y sgrin) o ran costau. Bydd gweithwyr llawrydd sydd heb fan gwaith arferol y tu allan i'r M25 yn cael eu cyfri at y diben hwn os ydyn nhw'n byw y tu allan i'r M25.

*Nod: Nod y maen prawf hwn yw sicrhau cyfleoedd swyddi creadigol go iawn ar draws amrywiol lefelau o swyddi uwch ym maes cynhyrchu ar gyfer y teledu yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Byddai denu talent i'r ardaloedd hynny yn gallu helpu, yn ei dro, i greu canolfannau cynhyrchu rhanbarthol cryf.*

*Nodiadau:*

- *Yr hyn a olygwn wrth y term 'talent cynhyrchu' yw'r rheini sy'n cael eu hystyried eu bod yn ymwneud yn uniongyrchol â chynhyrchu'r rhaglen. Ni ddylid cynnwys rolau ymylol fel gyrwyr, glanhawyr a staff arlwyo. Mewn rhai achosion, nid yw bob amser yn hawdd gwahaniaethu rhwng y gwahanol fathau o swyddi, ac felly dylid bod yn ddoeth ynghylch hyn, gan gadw bwriad y polisi mewn cof.*
- *Nid oes wahaniaeth p'un a yw'r talentau llawrydd yn cael eu cyflogi drwy stiwdio neu gwmni gwasanaeth sydd wedi'i leoli y tu allan i'r M25, dim ond os byddan nhw'n byw y tu allan i'r M25 y byddan nhw'n cyfrif fel talentau rhanbarthol.*
- *Man gwaith arferol rhywun yw lle mae'r unigolyn yn treulio'r rhan fwyaf o'i amser gweithio.*
- *Mae talent ar y sgrin yn rhan bwysig o dirwedd cynyrchiadau rhanbarthol, a dylai'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ystyried beth yw'r ffordd orau o gynnig cyfleoedd i dalentau ar y sgrin yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Ond, mae wedi cael ei eithrio o'r maen prawf hwn er mwyn sicrhau bod y cwotâu'n dal yn canolbwyntio ar arbenigedd cynhyrchu yn y rhanbarthau ac, yn bwysicach fyth, sicrhau nad yw'r cwotâu'n cael eu cam-ystumio gan gost sylweddol talentau ar y sgrin mewn rhai cynyrchiadau (gan gynnwys cynyrchiadau drama, ond heb eu cyfyngu i'r rhain).*

2.14 Byddai'r un tri maen prawf hefyd yn pennu a yw rhaglen yn cyfrif tuag at gwota gwariant y darlledwr, ac os felly, bydd y cyfraniad llawn at gost y rhaglen gan y darlledwr perthnasol yn cael ei gyfrif tuag at ei gwota. Wrth benderfynu ar yr hyn maen nhw am ei gyflawni yn erbyn y cwotâu gwariant, dim ond ar eu gwariant uniongyrchol eu hunain y dylai darlledwyr

seilio hyn, ac o'r herwydd, dylai cyllid trydydd parti bob amser gael ei eithrio o gyfrifiadau o'r fath.

## Dyrannu teitlau cynyrchiadau rhanbarthol

2.15 Rhaid i bob cynhyrchiad rhanbarthol gael ei neilltuo, mewn data a ddychwelir i Ofcom, naill ai i:

- Un o'r canlynol: Yr Alban, Cymru neu Ogledd Iwerddon; neu
- Un o dri isranbarth Lloegr (Gogledd Lloegr, Canolbarth a Dwyrain Lloegr, a De Lloegr)[7]; neu
- Sawl rhanbarth yn Lloegr; neu
- Sawl gwlad y tu allan i Loegr; neu
- Sawl gwlad/rhanbarth yn Lloegr.

2.16 Wrth benderfynu pa wlad neu isranbarth ddylai hyn fod, bydd mwyafrif o ddau o'r tri maen prawf yn berthnasol lle bynnag y bo modd.

2.17 Pan wneir cynhyrchiad cymwys o ganolfan sylweddol y tu allan i'r M25, dylid ei ddyrannu yn unol â'r ganolfan sylweddol honno yn yr achosion canlynol. Mae'r cynhyrchiad:

- yn bodloni pob un o'r tri maen prawf mewn gwahanol wledydd neu isranbarthau; neu
- yn bodloni dim ond un o feini prawf b) neu c) ac yn bodloni hyn mewn gwlad neu isranbarth gwahanol i'r ganolfan sylweddol; neu
- yn bodloni un neu'r ddau o feini prawf b) ac c) ond nid yw'r naill na'r llall wedi'i fodloni'n llawn mewn un wlad neu isranbarth yn unig.

2.18 Os bydd rhaglen gan gynhyrchydd o du mewn i'r M25 yn gymwys i fod yn gynhyrchiad rhanbarthol mewn perthynas â meini prawf b) ac c) uchod yn unig, ond nad oes gwlad neu is-ranbarth fwyafrifol i ddyrannu'r cynhyrchiad iddo, bydd y categorïau canlynol yn berthnasol:

- **Sawl Rhanbarth yn Lloegr**: ar gyfer teitlau sydd naill ai wedi:
  i) bodloni pob un o feini prawf b) ac c) yn llawn, mewn dau isranbarth gwahanol yn Lloegr; neu
  ii) wedi bodloni meini prawf b) ac c) mewn cyfuniad o is-ranbarthau yn Lloegr, ond heb fodloni'n llawn y trothwyon perthnasol o 70% a 50% mewn unrhyw is-ranbarth yn Lloegr.
- **Sawl gwlad y tu allan i Loegr**: ar gyfer teitlau sydd naill ai wedi:
  i) bodloni pob un o feini prawf b) ac c) yn llawn, mewn dwy wlad wahanol y tu allan i Loegr; neu
  iii) wedi bodloni meini prawf b) ac c) mewn cyfuniad o wledydd gwahanol y tu allan i Loegr, ond heb fodloni'n llawn y trothwyon perthnasol o 70% a 50% mewn unrhyw wlad unigol y tu allan i Loegr.
- **Sawl gwlad/Rhanbarth yn Lloegr**: ar gyfer teitlau sydd naill ai wedi:

[7] Mae'r isranbarthau'n cynnwys rhanbarthau'r llywodraeth, sef Swydd Efrog a Humber, Gogledd-orllewin a Gogledd-ddwyrain Lloegr; Gorllewin Canolbarth Lloegr, Dwyrain Canolbarth Lloegr a Dwyrain Lloegr, De-orllewin a De-ddwyrain Lloegr, yn y drefn honno.

iii) bodloni pob un o feini prawf b) ac c) yn llawn ond gydag un wedi'i fodloni mewn is-ranbarth yn Lloegr ac un wedi'i fodloni naill ai yng Nghymru, yr Alban neu yng Ngogledd Iwerddon; neu

iv) wedi bodloni meini prawf b) ac c) mewn cyfuniad o Loegr a gwlad neu wledydd eraill yn y DU, ond heb fodloni'n llawn y trothwyon perthnasol o 70% a 50% mewn unrhyw wlad/is-ranbarth unigol.

2.19 Mae'r tabl canlynol yn rhoi rhai enghreifftiau ymarferol o sut y dylai teitlau gael eu dyrannu:

| | **a) Canolfan Sylweddol** | **b) Cyllideb Cynhyrchu** | **c) Talent oddi ar y sgrin** | **Dyraniad** | **Esboniad** |
|---|---|---|---|---|---|
| A | Yr Alban | Gogledd Lloegr | Gogledd Lloegr | ***Gogledd Lloegr*** | Mae mwyafrif o ddau o bob tri yn berthnasol |
| B | Heb ei fodloni | Gogledd Iwerddon | Gogledd Iwerddon | ***Gogledd Iwerddon*** | Mae mwyafrif o ddau o bob tri yn berthnasol |
| C | Cymru | Cymru | Mwy nag un lleoliad | ***Cymru*** | Mae mwyafrif o ddau o bob tri yn berthnasol |
| D | De Lloegr | Cymru | Canolbarth a Dwyrain Lloegr | ***De Lloegr*** | Dim mwyafrif ond yn bodloni maen prawf a). Felly, dyrennir yn ôl a) |
| E | Yr Alban | Gogledd Lloegr | Heb ei fodloni | ***Yr Alban*** | Dim mwyafrif ond yn bodloni maen prawf a). Felly, dyrennir yn ôl a) |
| F | Canolbarth a Dwyrain Lloegr | Heb ei fodloni | Mwy nag un lleoliad | ***Canolbarth a Dwyrain Lloegr*** | Dim mwyafrif ond yn bodloni maen prawf a). Felly, dyrennir yn ôl a) |
| G | Heb ei fodloni | De Lloegr | Gogledd Lloegr | ***Sawl Rhanbarth yn Lloegr*** | Dim mwyafrif ac nid yw'n bodloni maen prawf a). Dyrennir gan ddefnyddio un o'r tri chategori aml-leoliad yn seiliedig ar ble y bodlonwyd b) ac c). |
| H | Heb ei fodloni | De Lloegr | Sawl lleoliad (yn Lloegr) | ***Sawl Rhanbarth yn Lloegr*** | Dim mwyafrif ac nid yw'n bodloni maen prawf a). Dyrennir gan ddefnyddio un o'r tri chategori aml-leoliad yn seiliedig ar ble y bodlonwyd b) ac c). |
| I | Heb ei fodloni | Yr Alban | Gogledd Iwerddon | ***Sawl gwlad y tu allan i Loegr*** | Dim mwyafrif ac nid yw'n bodloni maen prawf a). Dyrennir gan ddefnyddio un o'r tri chategori aml-leoliad yn |

| | a) Canolfan Sylweddol | b) Cyllideb Cynhyrchu | c) Talent oddi ar y sgrin | Dyraniad | Esboniad |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | seiliedig ar ble y bodlonwyd b) ac c). |
| J | Heb ei fodloni | Yr Alban | Sawl lleoliad (y tu allan i Loegr) | ***Sawl gwlad y tu allan i Loegr*** | Dim mwyafrif ac nid yw'n bodloni maen prawf a). Dyrennir gan ddefnyddio un o'r tri chategori aml-leoliad yn seiliedig ar ble y bodlonwyd b) ac c). |
| K | Heb ei fodloni | Cymru | Canolbarth a Dwyrain Lloegr | ***Sawl gwlad/Rhanbarth yn Lloegr*** | Dim mwyafrif ac nid yw'n bodloni maen prawf a). Dyrennir gan ddefnyddio un o'r tri chategori aml-leoliad yn seiliedig ar ble y bodlonwyd b) ac c). |
| L | Heb ei fodloni | De Lloegr | Sawl lleoliad (ar draws y DU gyfan) | ***Sawl gwlad/Rhanbarth yn Lloegr*** | Dim mwyafrif ac nid yw'n bodloni maen prawf a). Dyrennir gan ddefnyddio un o'r tri chategori aml-leoliad yn seiliedig ar ble y bodlonwyd b) ac c). |

## Rhaglenni Rhanbarthol

***Mae'r adran hon yn berthnasol i'r BBC a Sianel 3 yn unig.***

2.20 Mae Adran 287 o'r Ddeddf yn mynnu bod Sianel 3 yn darparu digon o raglenni ac ystod addas o raglenni rhanbarthol (gan gynnwys newyddion rhanbarthol). Mae gofynion cyfatebol yn berthnasol i'r BBC o dan Gytundeb Fframwaith y BBC. Mae Ofcom yn bwriadu y bydd 'swm digonol' ac 'ystod addas' yn cael eu dehongli i olygu'r swm a'r ystod a bennir mewn trwyddedau.

2.21 Mae'n rhaid i Ofcom hefyd sicrhau bod y drefn reoleiddio ar gyfer y BBC a phob gwasanaeth Sianel 3 yn briodol i sicrhau bod yr hyn sy'n ymddangos i Ofcom, yn achos y gwasanaethau, yn gyfran addas o'r rhaglenni rhanbarthol sydd wedi'u cynnwys yn y gwasanaeth, yn cynnwys rhaglenni sy'n cael eu gwneud yn yr ardal y mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu ar ei chyfer. ~~At ddibenion~~ Er mwyn penderfynu a yw rhaglen yn cael ei gwneud yn y rhanbarth, dylai'r darlledwyr perthnasol ddilyn y rheolau a nodir ym mharagraff 2.13 ~~7~~ uchod, gan roi 'yn y rhanbarth' yn lle 'y tu allan i'r M25'. Ar gyfer cyd-gynyrchiadau na wnaed yn y rhanbarth perthnasol, bydd cyfran y rhaglen sy'n cyfrannu at y cwota yn cael ei chyfrif yn unol â nifer y trwyddedeion dan sylw.

2.22 Yn achos newyddion rhanbarthol, os bydd Ofcom yn fodlon ei bod yn briodol yn amgylchiadau achos penodol, mewn amgylchiadau eithriadol, caiff ganiatáu i raglenni

newyddion na fyddent fel arall yn bodloni’r gofynion a nodir ym mharagraff 2.13 ~~7~~ uchod gael eu dosbarthu fel rhai sydd ‘wedi’u gwneud yn y rhanbarth’ ar yr amod ei fod yn fodlon bod adnoddau newyddiadurol sylweddol, gan gynnwys adnoddau casglu newyddion lleol a phresenoldeb gohebwyr a chriwiau llawr gwlad, yn cael eu cynnal ym mhob rhan o’r ardal berthnasol a’u bod yn ymwneud â chynhyrchu’r rhaglenni newyddion.

2.23 Rhaglenni rhanbarthol yw’r rheini sydd o ddiddordeb arbennig i’r bobl sy’n byw yn yr ardal sy’n cael y gwasanaeth. Bydd yr hyn sy’n gwneud rhaglenni unigol yn wahanol i allbwn rhanbarthau eraill a’r rhwydweithiau yn un o’r prif ystyriaethau wrth benderfynu beth sy’n gwneud rhaglenni’n rhanbarthol. Yn benodol, dylai rhaglenni rhanbarthol:

i) delio â materion sydd o ddiddordeb penodol i’r rhanbarth, ac sydd o lai o ddiddordeb mewn llefydd eraill (e.e. buddiannau, pryderon a digwyddiadau rhanbarthol); a

ii) bod wedi'u lleoli yn amlwg yn y rhanbarth a/neu gynnwys pobl sy’n gyfarwydd i drigolion y rhanbarth neu sydd â chysylltiadau agos â’r rhanbarth.

2.24 Gall cyd-gynyrchiadau rhwng dim mwy na thri trwyddedai Sianel 3 rhanbarthol (neu wasanaethau rhanbarthol y BBC) gyfrif tuag at gwota rhanbarthol pob trwyddedai. Gall cyd-gynyrchiadau rhwng trwyddedai rhanbarthol Sianel 3 neu wasanaeth rhanbarthol y BBC, a thrwyddedeion heb fod yn Sianel 3 neu rwydweithiau’r BBC neu ITV gyfrif hefyd, ar yr amod bod y rhaglenni’n cael eu darlledu gyntaf yn y rhanbarth perthnasol a’u bod yn bodloni’r meini prawf ym mharagraff 2.23 ~~16~~ uchod.

2.25 Mae modd caniatáu rhaglenni sy’n cynnwys mwy na thri o bartïon sy’n rhannu rhywfaint o gynnwys yn ôl disgresiwn Ofcom. Ni fyddai Ofcom yn disgwyl defnyddio ei ddisgresiwn oni bai fod swm y deunydd a rennir yn gyfran fach o’i gymharu â'r cyfanswm, ac nad oedd yn cyfrif am gyfran sylweddol o raglenni rhanbarthol ar unrhyw un gwasanaeth rhanbarthol.

2.26 Yn nhrefn arferol digwyddiadau, mae Ofcom yn disgwyl y bydd cydgynhyrchu yn ychwanegu at ansawdd ac amrywiaeth gwasanaethau rhanbarthol, yn hytrach na dim ond bod yn ymarferion torri costau. Fodd bynnag, os daw’n amlwg bod y disgwyliad hwn yn anghywir, bydd Ofcom yn ystyried newidiadau pellach.

## Proses gwyno

2.27 Mae Ofcom wedi cyhoeddi gweithdrefnau cyffredinol ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri amodau trwyddedau darlledu.[8] Mae’r rhain yn berthnasol i nifer o ofynion rheoleiddio a roddir ar ddarlledwyr, gan gynnwys gofynion i gyflawni cwotâu cynhyrchu a rhaglenni, ac maen nhw’n nodi’r camau y bydd Ofcom fel arfer yn eu dilyn er mwyn ymchwilio i weld a yw gofyniad perthnasol wedi cael ei dorri. Dylai rhanddeiliaid gyfeirio at y gweithdrefnau hyn os ydyn nhw’n dymuno gwneud cwyn.[9]

---

[8] Gweithdrefnau cyffredinol ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri amodau trwyddedau darlledu (Ofcom, 2017). Mae yna weithdrefnau gwahanol ar gyfer materion sy'n gysylltiedig â’r BBC - Gweithdrefnau ar gyfer gorfodi gofynion yng Nghytundeb Fframwaith y BBC a chydymffurfiad â chamau gorfodi Ofcom (Ofcom, 2017).

[9] Mae Bwletin Darlledu ac Ar Alwad Ofcom yn adrodd ar ganlyniadau ymchwiliadau i achosion posib o dorri codau a rheolau Ofcom yng nghyswllt rhaglenni teledu, radio a fideo ar alwad, yn ogystal ag amodau’r drwydded y mae’n rhaid i ddarlledwyr sy’n cael eu rheoleiddio gan Ofcom gydymffurfio â nhw.

2.28 Dylai unigolion sy'n dymuno gwneud cwyn am deitl a gyflwynwyd gan y BBC nodi bod egwyddor 'BBC yn Gyntaf' yn berthnasol, er ein bod yn gallu ystyried cwynion yn gyntaf o dan amgylchiadau eithriadol.[10]

2.29 Byddwn yn ystyried ceisiadau gan achwynwyr i fod yn ddienw fesul achos. Dylai rhanddeiliaid nodi bod Ofcom wedi cyhoeddi canllawiau ar wahân sy'n cynnig cyngor i chwythwyr chwiban.[11]

2.30 Dylai unrhyw un sy'n dymuno gwneud cwyn ynghylch sut mae'r darlledwyr yn cyflawni eu dyletswyddau o ran cynyrchiadau rhanbarthol neu raglenni rhanbarthol lenwi ffurflen gwyno ar wefan Ofcom. Mae ffurflenni ar wahân ar gyfer y rheini sydd am wneud cwyn am y ffordd mae'r BBC yn cyflawni ei ddyletswyddau o ran rhaglenni neu gynyrchiadau rhanbarthol, ac i'r rheini sydd am gwyno am y ffordd mae un o'r sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus masnachol (ITV, STV, Channel 4 a Sianel 5) yn cyflawni eu dyletswyddau o ran rhaglenni neu gynyrchiadau rhanbarthol. Mae'r ffurflenni hyn ar gael ar wefan Ofcom yma.

[10] Fel arfer, bydd Ofcom yn ystyried cwyn dim ond ar ôl i'r gŵyn gael ei datrys yn y lle cyntaf gan y BBC. Ewch i Siarter y BBC (Adran 56 (3)) a Chytundeb Fframwaith y BBC (Adran 56 (4)(a)).
[11] Gweler Cyngor ar gyfer cwynion, adran 3.

# 3. Cynyrchiadau rhyngwladol

3.1 Ystyrir bod rhaglen wedi’i gwneud y tu allan i’r DU, ac felly mae wedi’i heithrio o’r cwotâu ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol, lle mae’n bodloni o leiaf ddau o’r tri maen prawf canlynol:

- Lleoliad cynhyrchu (h.y. lleoliad y ganolfan sydd mewn gwirionedd yn rheoli’r cynhyrchiad) ddim yn y DU;
- Mae dros 50% o’r gyllideb (ac eithrio talent ar y sgrin, deunydd archif a chostau hawlfraint/hawliau chwaraeon) yn cael ei wario y tu allan i’r DU; a
- Mae dros 50% o’r dalent (ac eithrio talent ar y sgrin) fel arfer yn cael eu cyflogi y tu allan i’r DU.